

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lôn Garnedd, Abergele, LL22 7EW Ffôn : 01745 826901 Svm : 07903328655
e-bost : johnmaclellan9@icloud.com

MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR-LEIN AM 7.30y.h. DDYDD LLUN, MAWRTH 1af, 2021.

1. **CROESO** - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. **YN BRESENNOL** - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd Griffiths a'r Cynghorwyr Hefin Williams; Bryn Jones; D.Gwyn Jones; John Evans; Tudur W. Jones; Gwyndaf O. Roberts; Goronwy R. Williams a'r Cynghorydd Sir, Ifor G. Lloyd.
3. **YMDDIHEURIADAU** - Yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Eifion Evans a'r Cynghorydd John D. Roberts.

4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffir aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol ar y ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor Lloyd wedi dweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio, ac felly nad yw'n gallu cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau. - **NI DDATGELWYD YR UN.**

5. MUN UDAU

PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar-lein ar Chwefror 1af, 2021.

6. MATERION YN CODI

2.21/6(i) Gwteri wedi blocio a chyflwr ffyrdd yn y Ward. Mae hon yn broblem barhaus drwy'r ward, ac fe ofynnodd y Cynghorydd Ifor Lloyd i'r aelodau nodi lleoliadau'r rhain ac adrodd yn ôl iddo ef neu i'r Cyngor Sir.

7. CYLLID - PENDERFYNWYD NODI mantolenni'r Banc ar gyfer y cyfnod Chwefror 21ain, 2021 -

Cyfrif cymunedol£7888.49

Cyfrif busnes£5550.90

I GYMERADWYO'R FANTOLEN AR GYFER YR UN CYFNOD .
PENDERFYNWYD CYMERADWYO'r fantolen ar gyfer yr un cyfnod.

8. GOHEBIAETH

3.21/8(i) Ateb wedi ei dderbyn gan yr Heddlu ynghylch cyflymder beicwyr ar Ffordd Dolwen ger Derwas. **NODWYD** hwnnw gan yr aelodau.

3.1/8(ii) E-bost gan y Cadeirydd ynghylch cyflwr y ffordd B5381 Dolwen i'r Betws, a ffordd Dolwen i ffordd Hen Golwyn ger Llety Du a Twnan Uchaf. Mae adroddiad wedi ei wneud hefyd am y ffordd a adwaenir fel Allt y Ffolt. Roedd adroddiadau am y materion hyn wedi eu hanfon i'r Cyngor Sir, ac fe fyddai'r Cynghorydd Lloyd yn mynd ar ôl yr eitemau.

9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - Dim.

10. TALIADAU ALLAN - PENDERFYNODD YR AELODAU DALU'r holl eitemau ac anfonebau a restrir isod:-

3.21/10(i) HMRC.....	£ 71.81 - SO
3.21/10(ii) Cyflog y Clerc	£ 287.23 -SO
3.21/10(iii) Cyfieithu (Hanner y gost)	£ 21.50 - Siec200099
3.21/10(iv) Stampiau.....	£ 28.44 - Siec 200100
3.21/10(v) Swyddfa Archwiliad Cymru.....	£ 240.15 - Siec 200101
3.21/10(vi) Cradur.com	£ 305.00 - Siec 200102
3.21/10(vii) Treuliau swyddfa'r Clerc (Blynyddol)	£ 200.00 - Siec 200103

11. ER GWYBODAETH

3.21/11(i) Cyhoeddiad am gau'r ffordd o gyffordd Ffordd Abergele hyd at gyffordd Ffordd Newydd Rhyd-y-Foel ar 22.3.21 hyd at 23.3.21. Anfonwyd i'r aelodau ar 4.2.21

3.21/11(ii) Cyhoeddiad am gau'r ffordd o gyffordd Llys y Dderwen hyd at Cil Llidiart Betws yn Rhos ar 1.3.21. Anfonwyd i'r aelodau ar 8.2.21.

3.21/11(iii) Cyhoeddiad am gau'r ffordd rhwng cyffordd Ffordd Tan y Gopa a Ffordd Rhyd-y-Foel, Rhyd-y-Foel ar 25.2.21. Anfonwyd i'r aelodau ar 8.2.21.

3.21/11(iv) Cyhoeddiad am gau'r ffordd o gyffordd Chweffordd hyd at gyffordd Glasfryn i Ffordd Dolwen ar 24.2.21. Anfonwyd i'r aelodau ar 8.2.21.

3.21/11(v) Cyhoeddiad am gau'r ffordd o gyffordd y B5381 yn Garnedd hyd at gyffordd Ffordd Bryn Car, Dawn ar 3.3.21. Anfonwyd i'r aelodau ar 16.2.21.

3.21/11(vi) Cyhoeddiad am reolaeth traffig dros dro ar y cyffordd rhwng Tan y Llwyfan a Ffordd y Waen ar 26.2.21. Anfonwyd i'r aelodau ar 22.2.21.

**FE NODWYD YR HOLL GYHOEDDIADAU UCHOD GAN YR
AELODAU.**

12. GRANTIAU - Dim.

13. CYNLLUNIO

3.21/13(i) 0/48167 Cais cynllunio cymysg ar gyfer datblygiad graddol yn y safle, yn cynnwys 1. Cais cynllunio llawn ar gyfer codi 54 o dai annedd, creu mynediad newydd i gerbydau, creu mynediad mewnol, creu man awyr agored cyhoeddus, creu cyswllt llwybr troed ffurfiol gyda gweithle draeniau cysylltiedig, tirlunio a pharcio. 2. Cais cynllunio amlinellol ar gyfer codi 19 annedd, creu ffordd mynediad mewnol, a gweithle cysylltiedig. Ar dir gyfochr â Bryn Rodyn, Hen Golwyn. Mr Max Jones.

PENDERFYNWYD GWRTHWYNEBU 'r cais uchod am y rhesymau a nodir isod:-

1. Mae'r aelodau o'r farn bod hyn yn groes i TANI'r Polisiau Cynllunio.

2. Mae'r cais y tu allan i'r C.D.LL. yn ôl y diffiniad. .

3. Fe fyddai hyn yn ychwanegu traffig ar ffordd sydd eisoes yn brysur, a allai fod yn berygl i rieni a phlant ysgol yn yr Ysgol Gynradd.

4. Ni fydd yr isadeiledd yn ymdopi gyda chynnydd pellach yn y boblogaeth, ac yn enwedig felly ym Meddygfa'r Doctor.

5. Fe allai cynnydd yn swm y traffig waethygu'r broblem sydd eisoes yn amlwg gyda thagfeydd yng nghylchdro'r Marine, a allai achosi mwy o beryglon i blant yn mynychu ysgolion yn yr ardal.

6. Fe fyddai isadeiledd yr ysgolion yn cael ei ymestyn i ymdopi gyda mwy o ddisgyblion.

3.21/13(ii) 0/48173 Carthffos disgrychiant arfaethedig i gysylltu 1 - 4 Tai Glasfryn i'r brif garthffos gyhoeddus. ADRA. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.

14. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL -

3.21/14(i) Fe dderbyniwyd Cynllun Archwiliad Mewnol ar gyfer 2020/2021 gan JDH Business Services. NODWYD hwn gan yr aelodau.

15. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD.

3.21/15(i) Fe ailadroddodd y Cynghorydd Lloyd yr angen am i'r aelodau adrodd yn ôl am unrhyw faterion priffyrdd, naill ai iddo fo neu i'r Cyngor Sir. Fe ddywedodd nad oedd, mae'n debygol, unrhyw arian yn y gyllideb ar gyfer trwsio ffyrdd, yn arbennig yn yr ardaloedd gwledig, oherwydd bod yr arian yn rhannol wedi ei neilltuo i ddwysedd y traffig ar bob ffordd.

16. UNRHYW FATER ARALL

3.21/16(i) Tyllau a dŵr sefyll ar y ffordd o Twan i Bryn Rodyn, a hefyd o Derwas i Dolwen.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w dradod fe orffennodd y cyfarfod am 8.37y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....

